

Gwrandawriad cyn penodi: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

10 Gorffennaf 2024

1. Cyflwyniad

Craffu cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amryw o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae pwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith craffu cyn penodi mewn perthynas â rhai penodiadau er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ar gyfer gwrandawriadau cyn penodi ar gael ar [wefan](#) y Senedd.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2. Sefydlwyd y rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2008, i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithredu fel llais annibynnol ac eiriolwr ar gyfer pobl hŷn.

3. Mae'r manylion am rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd wedi'u diffinio yn [Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn \(Cymru\) 2006](#) a'r [Rheoliadau cysylltiedig](#).

4. Deiliad presennol y swydd yw Heléna Herklots a bydd ei chyfnod yn dod i ben ym mis Awst 2024.



2. Y broses recriwtio

- 5.** Cafodd y swydd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn hysbysebion y talwyd amdanynt rhwng 15 Ionawr a 9 Chwefror 2024. Mae manylion llawn y broses recriwtio ar gael yn y papur cefndir hwn.
- 6.** Daeth 12 o geisiadau i law. Ystyriwyd ac aseswyd pob cais yn erbyn y meini prawf a chawsant eu trafod mewn cyfarfod sifftio. Argymhellwyd 6 ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad.
- 7.** Fel rhan o'r broses ddethol, cynhaliwyd sesiwn i randdeiliaid ar 18 Ebrill 2024. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain gan roi trosolwg byr o'u rhesymau dros ymgeisio am y rôl. Dilynwyd hyn gan gyflwyniad 5 munud ar y rhinweddau y byddent yn eu cyflwyno i'r rôl. Yn y cyfweiliad hefyd gwnaeth yr ymgeiswyr gyflwyniad 7 munud ar sut y byddent yn blaenoriaethu eu hamser a'u hadnoddau i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.
- 8.** Bu'r Panel Cynggori ar Asesu 6 yn cyfweld â 6 ymgeisydd ar 12 a 13 Mehefin 2024, a chytunwyd ar 2 ymgeisydd i'w hargymell i'r Prif Weinidog fel rhai y gellid eu penodi.¹

Yr ymgeisydd a ffefrir

- 9.** Yr ymgeisydd a ffefrir gan y Prif Weinidog ar gyfer y rôl yw Rhian Bowen-Davies.
- 10.** Mae Rhian Bowen-Davies ar hyn o bryd yn rheoli busnes ymgynghori annibynnol sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn benodol mae hi'n cadeirio Adolygiadau Dynladdiad Domestig.

¹**Noder y gwahoddwyd aelod o'r Pwyllgor hwn i eistedd ar y Panel, a Jenny Rathbone AS y Cadeirydd oedd yr enwebai y cytunwyd arno gan y Pwyllgor. O'r pwynt hwn ymlaen, ni fu'r Cadeirydd yn cymryd unrhyw ran arall yng ngwaith craffu'r Pwyllgor cyn penodi ac ymadawodd yn gyfan gwbl o broses graffu'r Pwyllgor. Ar 1 Gorffennaf 2024 penderfynodd y Pwyllgor ethol Julie Morgan AS i weithredu fel ei Gadeirydd Dros Dro er mwyn cadeirio a chwblhau'r trafodion.**

3. Y gwrandawriad cyn penodi

11. Er mwyn llywio'r gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses recriwtio a chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr². Hefyd, cafodd CV a datganiad personol yr ymgeisydd a ffefrir eu rhannu â'r Pwyllgor.³
12. Cynhaliwyd y gwrandawriad ar 8 Gorffennaf 2024⁴.
13. Holwyd yr ymgeisydd ynghylch nifer o feysydd, gan gynnwys
 - Gwybodaeth a phrofiad;
 - Hyrwyddo buddiannau a dileu gwahaniaethu;
 - Rôl o ran goruchwyllo cyrff cyhoeddus;
 - Annog arfer gorau a chynnal annibyniaeth;
 - Adolygu cyfreithiau a pholisïau; a
 - Chyfeiriad strategol a blaenoriaethau.
14. Mae trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.⁵

² [Linc i'r pecyn ymgeiswyr](#)

³ [Gwrandawriad Cyn Penodi – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)

⁴ [Cofnod o'r trafodion, 8 Gorffennaf](#) – yn unol â'r confensiwn anfonodd Jenny Rathbone AS ymddiheuriadau ar gyfer pob eitem yn ymwneud â'r gwrandawriad cyn penodi.

⁵ [Cofnod o'r trafodion, 8 Gorffennaf](#)

4. Barn y Pwyllgor

- 15.** Nodwn yr ymgeisydd a ffefrir gan y Prif Weinidog ar gyfer rôl y Comisiynydd ac rydym yn croesawu'r cyfle i graffu arnynt fel rhan o'r broses cyn penodi.
- 16.** Ni welwn unrhyw reswm dros beidio â chymeradwyo'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, sef Rhian Bowen-Davies, ar gyfer rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
- 17.** Yn ystod y sesiwn, gwnaethom nodi pwysigrwydd data wrth lywio dewisiadau o ran polisi. Byddem yn croesawu pe gallai'r Comisiynydd sydd newydd ei benodi chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n agos ag Uned Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru i roi sylw i'r bylchau sydd o ran casglu a monitro data sy'n ymwneud â phobl hŷn, 60 mlwydd oed neu hŷn. Dylai hyn gynnwys rhoi sylw i faterion sy'n amrywio o dangynrychiolaeth y grŵp oedran hwn mewn arolygon, i ddiffyg gronynedd yn y data a gesglir am eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol, er mwyn sicrhau y gall data helpu i lywio polisiau sy'n mynd i'r afael â'r heriau unigryw y mae pobl hŷn yn eu hwynebu.
- 18.** Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed rhagor am flaenoriaethau a strategaethau'r Comisiynydd yn dilyn ei thri mis cyntaf yn y swydd.

